
# Aberystwyth – Harbwr a Thraeth y De

Mae'r llwybr hwn yn cynnwys cerdded ar hyd yr arfordir a glan yr afon yn ardal traeth y de yn Aberystwyth. Cewch olygfeydd bendigedig!


**Distance** 8.4 kilometers / 5.2 miles
**Duration** 3 hours

Water feature · Great views · Public transport · Picnic spot · Dog friendly · Botanics





Created by Go Jauntly Ltd © 2023. Last Updated: 24 October 2023.




**Step 1:** Croeso i Orsaf Aberystwyth! Gallwch gyrraedd y ddinas glan môr hyfryd hon o Birmingham ac Amwythig.

**Step 2:** Ewch o’r orsaf drwy fynd ar hyd y palmant ac yn syth ymlaen i'r brif allanfa. Trowch i’r chwith ar hyd Ffordd Alexandra.

**Step 3:** Wrth y gylchfan fach, trowch i'r chwith ar hyd Coedlan y Parc.

**Step 4:** Ewch heibio M&S; a Tesco. Defnyddiwch y goleuadau i groesi i’r ochr arall, a chymryd y troad cyntaf i’r dde ar ôl Matalan (Stryd Cae Glas).

**Step 5:** Ar waelod y stryd, trowch i’r chwith, yna cymerwch y troad cyntaf i'r dde ar y llwybr troed tuag at y bont droed.

**Step 6:** Defnyddiwch y bont droed i groesi afon Rheidiol.

**Step 7:** Ewch yn syth ymlaen ar ôl mynd dros y bont, i Gerddi’r Ffynnon.

**Step 8:** Pan fyddwch yn Ffordd Penparcau, croeswch drosodd yn syth (gan ddefnyddio'r groesfan sebra ar y dde).

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense. Created by Go Jauntly Ltd © 2023. Last Updated: 24 October 2023.




**Step 9:** Dilynwch Pen yr Angor yn syth ymlaen.

**Step 10:** Does dim palmant ar rai rhannau o’r ffordd hon, felly byddwch yn ofalus ac yn ymwybodol o gerbydau sy’n dod tuag atoch.

**Step 11:** Daliwch ati i ddilyn Pen yr Angor wrth i chi nesáu at y traeth.

**Step 12:** Bron iawn yna. Daliwch i ddilyn y ffordd wrth iddi droi.

**Step 13:** Daliwch ati i fynd ymlaen wrth i'r maes parcio ddod i'r golwg.

**Step 14:** Pa mor hardd yw’r groesfan dros afon Ystwyth?

**Step 15:** Ychydig heibio'r afon, trowch i'r chwith drwy’r maes parcio, a dal i fynd yn syth yn eich blaen ar hyd y llwybr pridd a graean.

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense. Created by Go Jauntly Ltd © 2023. Last Updated: 24 October 2023.




**Step 16:** Daliwch ati i fynd, gydag afon Ystwyth ar y chwith i chi a’r traeth ar y dde.

**Step 17:** Daliwch ati i fynd yr holl ffordd nes byddwch yn cyrraedd llethr mawr. Yn lwcus iawn, rydyn ni’n mynd i'r cyfeiriad arall.

**Step 18:** Trowch i'r chwith, gan fynd drwy’r gât yma.

**Step 19:** Dilynwch y trac, gyda’r cae ar y chwith i chi a’r coed ar y dde.

**Step 20:** Wrth y gatiau, cadwch i’r chwith a mynd drwy’r gât llai.

**Step 21:** Daliwch i ddilyn y llwybr ar hyd ochr y ffens wrth iddo droi am y goedwig. Gall fod yn fwdlyd yma mewn tywydd gwlyb.

**Step 22:** Wrth i chi ddod allan ar ffordd fynediad, trowch i’r chwith ar y tarmac.


Created by Go Jauntly Ltd © 2023. Last Updated: 24 October 2023.




**Step 23:** Mae hon yn ffordd dawel. Ond ceisiwch fod yn ymwybodol o'r hyn sydd o'ch cwmpas wrth i chi gerdded ffordd hyn.

**Step 24:** Daliwch ati i ddilyn y ffordd wrth iddi droelli ar hyd y cae.

**Step 25:** Roedden ni wrth ein bodd yn cerdded rhwng y coed yn y fan yma.

**Step 26:** Ewch i'r chwith wrth y gyffordd T yn y fan yma.

**Step 27:** Ar ôl ychydig, cadwch lygad am gât o'ch blaen wrth i'r ffordd droi i'r dde. Ewch am y gât.

**Step 28:** Ar ôl mynd drwy'r gât mochyn fetel, dilynwch y trac pridd ar lannau'r afon.

**Step 29:** Yn y diwedd, mae'r llwybr yn dechrau troi wrth iddo ddilyn siâp yr afon.


Created by Go Jauntly Ltd © 2023. Last Updated: 24 October 2023.




**Step 30:** Daliwch ati i gerdded ar hyd y llwybr ar lan yr afon.

**Step 31:** Rydyn ni'n mynd yn ôl am y traeth nawr.

**Step 32:** Mae Pen Dinas yn syth o'ch blaen, lle mae bryngaer o Oes yr Haearn. Os ydych chi'n teimlo'n ffit, chwiliwch am Pen Dinas...

**Step 33:** ...yn yr ap i ganfod y ffordd i fyny!

**Step 34:** Dim llawer i fynd nawr, yn ôl at y traeth.

**Step 35:** Pan fyddwch yn cyrraedd y gatiau hyn, ewch yn syth ymlaen am yr arfordir.

**Step 36:** Trowch yn ôl ar y llwybr graean y daethoch ar ei hyd yn gynharach. Rydych chi'n mynd yn ôl i'r maes parcio nawr.



Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense. Created by Go Jauntly Ltd © 2023. Last Updated: 24 October 2023.




**Step 37:** Ewch yn syth yn eich blaen drwy'r maes parcio.

**Step 38:** Trowch i’r dde, yn ôl dros y bont y gwnaethoch ei chroesi yn gynharach.

**Step 39:** Nawr, byddwch yn mynd yn ôl yr un ffordd yr holl ffordd i Orsaf Aberystwyth, Pen-yr-Angor.

**Step 40:** Daliwch i fynd ar hyd y ffordd arfordirol gan fod yn ymwybodol o unrhyw geir ar hyd y ffordd.


**Step 41:** Ewch ar y palmant os hoffech chi.

**Step 42:** Dim llawer i fynd eto ar y ffordd hon.

**Step 43:** Cyn bo hir, byddwch yn dod at y groesfan sebra y gwnaethoch ei defnyddio’n gynharach.

**Step 44:** Defnyddiwch y groesfan sebra i fynd dros yr A487. Ar yr ochr arall, trowch i'r dde.


Created by Go Jauntly Ltd © 2023. Last Updated: 24 October 2023.




**Step 45:** Yna, trowch i’r chwith yn syth, i Gerddi’r Ffynnon. Byddwch yn mynd yn ôl yr un ffordd i'r orsaf nawr.

**Step 46:** Daliwch ati yn syth ymlaen, tuag at y bont dros yr afon.

**Step 47:** Defnyddiwch y bont droed eto i groesi’r afon.

**Step 48:** Trowch i'r chwith oddi ar y bont, i lawr y ramp.


**Step 49:** Ar ôl dod oddi ar y ramp, ewch i’r dde i fynd ar y ffordd, sef Heol Minafon, yna i'r chwith ac i'r dde i gyrraedd Stryd Cae Glas.

**Step 50:** Dim llawer i fynd nes byddwch ar Stryd Cae Glas eto.

**Step 51:** Trowch i'r chwith ar Goedlan y Parc.

**Step 52:** Defnyddiwch y goleuadau i groesi i ochr arall y stryd, a daliwch ati i fynd ymlaen.

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense. Created by Go Jauntly Ltd © 2023. Last Updated: 24 October 2023.




**Step 53:** Wrth y toiledau cyhoeddus, trowch i'r dde ar y sgwâr.

**Step 54:** Croeswch y sgwâr o gongl i gongl a byddwch yn cyrraedd mynedfa ochr yr orsaf. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r daith gerdded hon!